cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)
Tystiolaeth o Fanylion Personol

Bydd angen i chi anfon tystiolaeth atom i gadarnhau'ch manylion, a dylech ddefnyddio'r wybodaeth isod i ddarganfod pa dystiolaeth wreiddiol fydd angen i chi ei hanfon.

Dylech anfon llungopïau o'ch tystiolaeth oni bai y nodir fel arall. Byddwn yn dychwelyd unrhyw ddogfennau gwreiddiol.

Os oes gennych basbort y Deyrnas Unedig dilys, rhowch y manylion hyn ar y ffurflen gais. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i chi anfon eich pasbort atom.

Os byddwn wedi gofyn am dystiolaeth o:	Darparwch un o'r canlynol:
eich dyddiad geni	• eich manylion pasbort dilys y Deyrnas Unedig yn unol â'r cais yn adran 5 y ffurflen gais; **neu** • eich pasbort **gwreiddiol** dilys nad yw o'r Deyrnas Unedig; **neu** • eich tystysgrif geni/mabwysiadu **wreiddiol**; **neu** • eich Cerdyn Adnabod Cenedlaethol **gwreiddiol**; **neu** • eich Caniatâd Preswylio Biometrig **gwreiddiol**.
eich cyfeiriad	• bil nwy, trydan neu fil tebyg, dyddiedig o fewn y tri mis diwethaf; **neu** • eich bil y dreth gyngor am y flwyddyn bresennol; **neu** • eich datganiad Budd-daliadau diweddaraf. **Gall y prawf fod yn enw eich rheini/gwarchodwr/partner.**